# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Ewan Richards

### Myfyriwr

Ymhlith yr uchafbwyntiau i fi o weithio gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol eleni mae cymryd rhan yn y ffilm 'o'r ysgol i'r coleg' gyda Choleg Sir Gâr yn ogystal â'r gwahoddiad i roi cyflwyniad gyda llawer o adnoddau newydd i ddangos manteision y ffilm a'r gefnogaeth rwy'n ei chael, ynghyd â'r dulliau cefnogi sydd ar waith yn y coleg.

Rwy'n credu bod fy ngwaith gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi helpu i greu newid i fywydau'r bobl rwy' wedi gweithio gyda nhw drwy wneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus am fynd i'r coleg a'u hysbysu am y gefnogaeth y gallen nhw ei chael, a gobeithio y byddai hynny'n gwneud iddyn nhw eisiau siarad yn agored am fyw gydag awtistiaeth.

Hefyd, cynnal stondin am awtistiaeth yn y coleg i wneud staff a myfyrwyr yn ymwybodol o beth yw awtistiaeth ac i ddangos nad yw pobl ag awtistiaeth ddim gwahanol i neb arall.